WYTHFED SUL ADFERIAD CYMRU

Annwyl Gyfaill,

Bydd dydd Sul 27ain o Hydref, 2019, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis y Stafell Fyw a CAIS, ond hefyd i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: "Daliwch ati i gofio'r rheiny sydd yn y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw.

Mae'r gwasanaeth eleni yn seiliedig ar hanes Jona, un o storïau mawr y Beibl. Byddwn yn gweld pa mor berthnasol yw'r stori i ni heddiw a bod yna Jona y tu mewn i ni i gyd. Y Parchedig Guto Llywelyn sy'n gyfrifol am baratoi'r gwasanaeth. Ganwyd a magwyd Guto yn Felin-fach, Ceredigion, ond mae'n byw yn Caerbryn, ger Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin, erbyn hyn. Ar ôl 25 mlynedd fel llyfrgellydd fe aeth i'r weinidogaeth yn 2013 ac mae'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn ardal Hendy-gwyn, Sir Gaerfyrddin. Mae'n briod gyda Catrin ac mae ganddynt ddau o blant, sef Mari a Dafydd.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gellir ei lawrlwytho o'n gwefan: www.livingroom-cardiff.com; neu www.cynnal.wales

Dyma wythfed Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol; yn gofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

Diolch rhag blaen am bob cydweithrediad a chefnogaeth.

Wynford Ellis Owen
Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol
CAIS Cyf/Ltd – Stafell Fyw Caerdydd
58 Richmond Road, Caerdydd, CF24 3AT
07796464045 / 02920493895/ wynfordellisowen@cais.org.uk

WALES' EIGHTH RECOVERY SUNDAY

Dear Friend,

Sunday, 27th October, 2019, will be another milestone in the history of the battle against addiction to alcohol, drugs and other harmful behaviour, in Wales.

Once again this year, a Sunday has been designated as Recovery Sunday to encourage churches not only to think about those suffering from various dependencies or addictions, to learn more about their situation, their needs and the help available through such centres as the Living Room and CAIS, but also to encourage churches to do something practical to help. This could involve a financial contribution towards the work. Others may take note of what is said in Hebrews 13, 3 "Regard prisoners as if you were in prison with them." The author of the letter to the Hebrews no doubt refers to a literal, physical prison, but on Recovery Sunday let us remember that addiction to alcohol, drugs, food, sex/pornography, gambling etc. is a prison for so many people today.

The service is based on the story of Jonah, one of the great Bible stories. We'll see how the story is relevant to us today and that there's a Jonah inside all of us. The Reverend Guto Llywelyn is responsible for preparing the service. Guto was born and bred in Felin-fach, Ceredigion but he now lives in Caerbryn near Ammanford, Carmarthenshire. After 25 years as a librarian he entered the ministry in 2013 and he now ministers with the Welsh Independents in Whitland, Carmarthenshire. He's married to Catrin and has two children, Mari and Dafydd.

You are welcome to use this service, in English or Welsh. It can be downloaded from our websites: www.livingroom-cardiff.com; or www.cynnal.wales

This is the eighth Recovery Sunday in Wales. On this Sunday, we invite Christians to unite in prayer for those who are dependent and trapped in addiction, to ask God to help us to help them.

Thank you in anticipation of your cooperation and support.

Wynford Ellis Owen
Specialist Counselling Consultant
CAIS Cyf/Ltd – Stafell Fyw Caerdydd/ Living Room Cardiff
58 Richmond Road, Caerdydd, CF24 3AT
07796464045 / 02920493895/ wynfordellisowen@cais.org.uk